# Darlleniad Corawl

Darlleniad corawl yw hwn ar gyfer tri darllenydd. Y mae'r oedolion yn ailadrodd y gytgan. Os na chafwyd cyfle i ymarfer gellid rhoi copïau o'r llinellau ar y seddau neu ar daflunydd-tros-ysgwydd.

| | |
|---|---|
| A: | Ar adeg pan oedd y genedl Iddewig yn byw mewn trueni mewn gwlad a feddiannwyd gan fyddin y gelyn. |
| B: | Mewn cyfnod enbyd felly, rhoddodd Duw newyddion gorfoleddus iddyn nhw. |
| C: | Ganwyd i chwi heddiw waredwr. |
| Pawb: | Eich Gwaredwr, Crist yr Arglwydd. |
| A: | Bu'r Iddewon yn aros am flynyddoedd lawer am arweinydd, arweinydd a fyddai'n eu rhyddhau o afael y Rhufeiniaid oedd wedi meddiannu eu gwlad. Yr enw ar yr arweinydd hwn oedd Crist, y Meseia. |
| B: | Roedd neges Duw yn cyhoeddi bod eu hir ddisgwyl drosodd. |
| C: | Ganwyd i chwi heddiw waredwr. |
| Pawb: | Eich Gwaredwr, Crist yr Arglwydd. |
| A: | Nid yn y palas y cyhoeddwyd y neges, ac nid ym mhencadlys y fyddin, nid i'r offeiriaid y rhoddwyd hi nac i'r arweinwyr crefyddol. |
| B: | Yn lle hynny rhoddwyd y neges hon i ffermwyr wrth eu gwaith bob dydd. |
| C: | Ganwyd i chwi heddiw waredwr. |
| Pawb: | Eich Gwaredwr, Crist yr Arglwydd. |
| A: | Nid mewn llyfr yr ysgrifennwyd y neges; ni chafodd ei chyhoeddi yn y trefi fel gorchmynion yr ymerawdwr, ni chafodd ei chyhoeddi yn y synagogau hyd yn oed. |
| B: | Cyflwynwyd neges mor arbennig i fugeiliaid defaid, gan angylion a lanwodd awyr y nos. |
| C: | Ganwyd i chwi heddiw waredwr. |
| Pawb: | Eich Gwaredwr, Crist yr Arglwydd. |
| A: | Cafodd y neges ei hanwybyddu gan lawer; cafodd ei gwrthod gan lawer; fe'i hofnwyd gan lawer; cafodd ei gwrthwynebu gan lawer. |
| B: | Ond i'r rhai a'i credodd, ac i'r rhai sy'n dal i'w chredu, dyma'r neges fwyaf cyffrous yn hanes y byd, oherwydd y mae'n cyhoeddi bod Duw wedi dechrau achub dynoliaeth. |
| C: | Ganwyd i chwi heddiw waredwr. |
| Pawb: | Eich Gwaredwr, Crist yr Arglwydd. |

**DIWEDD**